Vavasor Powell, 1617–70
Pregethwr, diwinydd Piwritanaidd ac awdur

Saif Cnwclas ddwy filltir o Drefyclo, Maesyfed, ar y ffin gyda sir Amwythig ac yno y ganwyd Vavasor Powell, mewn tafarn. Cymraeg oedd iaith yr ardal ar y pryd, yn ogystal â rhannau o siroedd Henffordd, Amwythig a Chaerloyw. Perchennog tir oedd ei dad, Richard Powell, a hanai teulu ei fam, Penelope Vavasor, o'r Drenewydd. Treuliodd Vavasor Powell beth amser fel ysgolfeistr yng Nghlun ac yno y cafodd dröedigaeth. Nid digwyddiad sydyn ydoedd ond datblygiad tros gyfnod. Dechreuodd gael ei ddwysbigo am ei bechod wrth gael ei geryddu gan Biwritan am wylio pêl-droed ar y Sul.

Yna darllenodd lyfr Richard Sibbes, *The Bruised Reede*, a'i cyffyrddodd i'r byw, ac effeithiodd pregethu Walter Cradoc yn drwm arno yn ogystal. Rhwng y cwbl daeth i gredu yn yr Iesu fel Gwaredwr ac ymunodd â'r Piwritaniaid oedd yn cyfarfod yn Brompten Brian. Fe'i llanwyd ag awch i efengylu a chynhaliodd ymgyrch bregethu yng ngorllewin sir Henffordd rhwng 1639 a 1642. Pan gychwynnodd y rhyfel cartref mudodd i Lundain a bu'n ficer Dartford yng Nghaint rhwng 1644 a 1646. Dychwelodd i Gymru wedi iddo gael ei enwi fel pregethwr gan Bwyllgor y Gweinidogion Llwm ar dal o £100 y flwyddyn. Datblygodd yn ffigur dylanwadol o fewn y mudiad Piwritanaidd, ac arwydd o hyn yw iddo bregethu i Thomas Foot, Arglwydd Faer Llundain, ym 1649, a gerbron Tŷ'r Cyffredin y flwyddyn ddilynol. Fe'i hapwyntiwyd yn gymeradwywr o dan Ddeddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru (1650) ac yr oedd ef, ymhlith eraill, yn gyfrifol am drefnu pregethwyr teithiol. Prif amcan ei fywyd oedd cyhoeddi gair Duw i'w gyd-ddynion er eu hiachawdwriaeth. Yr oedd hefyd yn filflwyddwr a gredai'n gydwybodol fod ailddyfodiad yr Arglwydd Iesu ar fin digwydd ac y byddai'n llywodraethu'r ddaear yn bersonol. Cefnogai hefyd Blaid y Bumed Frenhiniaeth a seiliai eu syniadaeth ar lyfr Daniel lle y cyfeirir at bedair brenhiniaeth, sef

Asyria, Persia, Groeg a Rhufain. Credent fod y bedwaredd frenhiniaeth wedi dod i ben pan ddienyddiwyd y Brenin Siarl, a'r nesaf i deyrnasu oedd Crist. I baratoi ar gyfer ei ddyfodiad roedd yn rhaid i'r saint lywodraethu. Galwodd Oliver Cromwell senedd at ei gilydd yn Llundain a enwebwyd gan yr eglwys, ond penderfynodd mai camgymeriad oedd yr arbrawf ac fe'i diddymwyd. Cymerodd Cromwell y teitl Arglwydd Amddiffynnydd, ond anghytunai Vavasor Powell yn chwyrn â hyn a dechreuodd wrthwynebu Cromwell. Pregethodd yn ffyrnig yn ei erbyn yn Christchurch gan ei gyhuddo o geisio cymryd lle Crist, ac fe'i carcharwyd ym 1653. Wedi ychydig ddyddiau fe'i rhyddhawyd a ffodd i Landdewibrefi i ddechrau achos yn erbyn y wladwriaeth, ond yr oedd llygaid yr awdurdodau arno. Fel rhan o'r gwrthwynebiad trefnodd ddeiseb yn erbyn y Senedd, sef '*A Word for God*' a lofnodwyd gan 322 o bobl ac a gyflwynwyd ym 1655. O ganlyniad i'r cythrwfl hwn fe bellhaodd Vavasor Powell oddi wrth ei gyd Biwritaniaid a'r awdurdodau.

Yn y blynyddoedd yn dilyn adferiad y Brenin Siarl ym 1660 carcharwyd Vavasor Powell lawer tro oherwydd ei safbwyntiau, a hynny yn Amwythig, yn y Fflyd, Llundain, ac yng nghastell Southsea. Ysgrifennodd nifer o lyfrau, gan gynnwys *Common Prayer-Book no Divine Service* (1660) a *The Bird in the Cage Chirping*, (1661). Bu'n briod ddwywaith. Ei wraig gyntaf oedd Joan Quarrell, gweddw'r masnachwr Paul Quarrell o Lanandras, a'r ail oedd Katherine, pumed merch Gilbert Gerard, Caer. Nid oedd ganddo blant. Bu farw wedi salwch poenus ar 27 Hydref 1670, yn 53 oed, a chladdwyd ei weddillion yng nghladdfa Bunhill Fields.